

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Fideo Gynadledda drwy Zoom

<http://senedd.tv/cy/6342>

Dyddiad: Dydd Mawrth, 9 Mehefin 2020

Amser: 13.31 – 17.43

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Lynne Neagle AS (Cadeirydd) Dawn Bowden AS Jayne Bryant AS (yn lle Hefin David AS) Suzy Davies AS Janet Finch-Saunders AS Siân Gwenllian AS
Tystion:	Dr David Tuthill, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant Lisa Turnbull, Cyngorwr Polisi Cyhoeddus – y Coleg Nyrsio Brenhinol Dr Mair Hopkin, Coleg Brenhinol Meddygon Teulu Cymru Simon Jones, Pennaeth Polisi a Dylanwadu – Mind Cymru Kate Heneghan, Pennaeth Cymru – Papyrus Sarah Stone, Cyfarwyddwr Gweithredol dros Gymru – Samariaid Cymru Stephanie Hoffman, Pennaeth Gweithredu Cymdeithasol – Meic Cymru Dr Kirsty Fenton, Seiciatrydd ymgynghorol plant a'r glasoed



	<p>ym Mwrdd Iechyd</p> <p>Prifysgol Hywel Dda a Chadeirydd Cyfadran Seiciatreg Plant a'r Glasoed, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru</p> <p>Dr Liz Gregory, Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol ac yn cynrychioli Seicolegwyr Cymwysedig yn y Grŵp Cynghori Arbenigol Cenedlaethol ar Iechyd</p> <p>Dr Bethan Phillips, Seicolegydd Clinigol Arbenigol lawn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chyd-gadeirydd yr Is-adran Seicoleg Glinigol yng Nghymru</p>
Staff y Pwyllgor:	<p>Llinos Madeley (Clerc)</p> <p>Tanwen Summers (Ail Clerc)</p> <p>Phil Boshier (Ymchwilydd)</p> <p>Michael Dauncey (Ymchwilydd)</p> <p>Philippa Watkins (Ymchwilydd)</p>

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai'n gadael y cyfarfod am ryw reswm, y byddai Dawn Bowden AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

1.4 Nododd y Cadeirydd ymddiheuriadau gan Hefin David AS. Roedd Jayne Bryant AS yn dirprwyo ar ei ran.

2 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth ar effaith COVID-19 ar iechyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc – gyda chynrychiolwyr nyrsio, pediatreg a meddygon teulu.

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, y Coleg Nyrsio Brenhinol a Choleg Brenhinol y Meddygon Teulu.

2.2 Cytunodd y Coleg Nyrsio Brenhinol i roi nodyn ynghylch a oedd pob teulu'n cael ymweliadau yn ôl eu hamserlen, yn unol â rhaglen Plant Iach Cymru.

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod heddiw yn ystod eitem 4.

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

4 COVID-19: Trafod y dystiolaeth

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn y sesiwn flaenorol.

5 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth ar effaith COVID-19 ar iechyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc gyda chynrychiolwyr y trydydd sector

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mind Cymru, Papyrus, Samariaid Cymru a Meic Cymru.

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod heddiw yn ystod eitem 7

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

7 COVID-19: Trafod y dystiolaeth

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a glywyd yn y sesiwn flaenorol.

8 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth ar effaith COVID-19 ar iechyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc gyda chynrychiolwyr seiciatreg a seicoleg

8.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion, Seicolegwyr Cymwysedig o'r Grŵp Cyngori Arbenigol Cenedlaethol a Chymdeithas Seicolegol Prydain.

9 Papurau i'w nodi

9.1 Cafodd y papurau eu nodi.

10 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

10.1 Derbyniwyd y cynnig.

11 COVID-19: Trafod y dystiolaeth

11.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn y sesiwn flaenorol.

12 Dull y Pwyllgor o ran y ddeddfwriaeth sydd ar ddod

12.1 Ystyriodd y Pwyllgor ei ddull o ymdrin â deddfwriaeth sydd ar ddod.

12.2 Fe wnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- cytunodd ar ddull mewn egwyddor o graffu ar Fil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yng Nghyfnod 1, yn amodol ar ei gyflwyno cyn toriad yr haf;

- nododd ddatganiad Llywodraeth Cymru ar 9 Mehefin 2020 yn nodi y bydd y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn cael ei gyhoeddi fel Bil Drafft a bydd ei gyflwyno'n cael ei ohirio; a
- cytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ddiweddariad ar yr amserlenni ar gyfer gweithredu camau nesaf o ran y diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac arwydd a fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ymateb i'r pwyntiau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad y llynedd ar y Cod ADY Drafft cyn gosod y fersiwn derfynol gerbron y Senedd.